Peidiwch â chynnwys colledion rydych wedi hawlio rhyddhad ar eu cyfer yn flaenorol. Cyfrifwch y gwahaniaeth rhwng y rhwymedigaeth wirioneddol am y flwyddyn flaenorol a'r rhwymedigaeth a fyddai wedi codi ar gyfer y flwyddyn gynharach petai'r golled, yr elw cyfartalog neu'r taliadau pensiwn wedi eu cynnwys yn y Ffurflen Dreth ar gyfer y flwyddyn honno. Nodwch y swm ym mlwch A348. Os bydd angen cymorth arnoch, gofynnwch i ni neu eich ymgynghorydd treth.

Gostyngiad yn y dreth o ganlyniad i'r
addasiad ar gyfer blynyddoedd cynharach — A348 [ ]

Copïwch flwch A348 i flwch 15 ar dudalennau 'Crynodeb o'r cyfrifiad treth'

Os ydych am hawlio rhyddhad treth incwm yn awr ar gyfer colled incwm 2024 i 2025, neu rai colledion cyfalaf 2024 i 2025, drwy gyfeirio at flwyddyn gynharach, er enghraifft 2023 i 2024 (elwir yn aml yn 'cario colled' yn ôl), dylech fod wedi darparu manylion llawn eich hawliad yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol', sef blwch 19 ar dudalen TR 7 eich Ffurflen Dreth. Bydd angen i chi hefyd lenwi blychau 3, 4 a 5 ar y dudalen 'Gwybodaeth Ychwanegol' Ai3.

Ar ôl cyfrifo'r rhwymedigaeth ar gyfer 2023 i 2024, dylech ei hailgyfrifo drwy addasu'r blychau ar gyfer colledion a gariwyd ymlaen a cholledion a osodwyd yn erbyn incwm arall, er mwyn gostwng eich elw a'ch incwm arall gan swm y golled a gariwyd yn ôl, a dylech nodi'r rhwymedigaeth newydd. Y gwahaniaeth rhwng y rhwymedigaeth newydd a'ch ffigur gwreiddiol o flychau A343 neu A343a yw swm eich rhyddhad treth ar gyfer colled 2024 i 2025, a dylech ei nodi ym mlwch A349. Pan fyddwn yn cael eich Ffurflen Dreth, caiff credyd ar gyfer y swm hwn ei osod yn erbyn cyfanswm y dreth sy'n ddyledus ar gyfer 2023 i 2024. Mewn rhai achosion pan fyddwn yn ymchwilio i'ch hawliad, mae'n bosibl na fydd unrhyw gredyd ar gael cyn i'r ymchwiliad ddod i ben. Efallai y byddwch am ddefnyddio'r colledion hyn mewn blwyddyn flaenorol. Os felly, bydd angen i chi ailgyfrifo rhwymedigaeth y flwyddyn honno cyn llenwi 'Gwybodaeth ychwanegol', tudalen Ai3, a blwch A349. Os bydd angen help arnoch, gofynnwch i ni neu'ch ymgynghorydd treth.

Ad-daliad y flwyddyn
nesaf a hawlir nawr — A349 [ ]

Copïwch flwch A349 i flwch 16 ar dudalennau 'Crynodeb o'r cyfrifiad treth'

Edrychwch ar eich Datganiadau o Gyfrif (os nad ydych erioed wedi cael Datganiad o Gyfrif, mae'n annhebygol eich bod wedi talu unrhyw beth eto tuag at eich bil treth ar gyfer 2023 i 2024).

Taliadau neu gredydau a wnaed tuag at eich taliadau ar gyfrif ar gyfer 2023 i 2024

A350

Unrhyw daliadau neu gredydau eraill na chawsant eu cynnwys eisoes ym mlychau A348, A349, neu A350 a wnaed tuag at eich bil treth ar gyfer 2023 i 2024

A351

Os oes gennych god treth ac os daw eich Ffurflen Dreth i law erbyn 31 Hydref 2024, efallai y gellir casglu'r dreth sy'n ddyledus gennych drwy eich cod treth ar gyfer 2025 i 2026.

Treth sy'n ddyledus llai taliadau neu gredydau a CYG Dosbarth 2

A347 llai (A350 + A330)

A352

Gall y blwch hwn fod yn negyddol

Os yw blwch A352 yn bositif ac yn llai na £3,000 ac os ydych am gynnwys hwn yn eich cod treth ar gyfer 2025 i 2026, copïwch y ffigur ym mlwch A352 i flwch A353; os nad ydych, gadewch flwch A353 yn wag.

Swm y gellir ei gynnwys yn y cod

A353

Addasiadau, taliadau ac wedi'u cynnwys yn y cod

A348 + A349 + A350 + A351 + A353

A354

Gall y blwch hwn fod yn negyddol

**Treth sy'n ddyledus ar gyfer 2023 i 2024**
Os yw blwch A355 yn bositif, dyma'r dreth sydd arnoch. Os yw blwch A355 yn negyddol, dyma'r dreth sydd arnom i chi.

A347 llai A354

A355

Gall y blwch hwn fod yn negyddol

## Taliadau ar gyfrif

Os yw blwch A356 yn llai na £1,000, nid oes raid i chi wneud taliadau ar gyfrif ar gyfer 2024 i 2025; peidiwch â llenwi blychau A357 i A359. Nodwch '0' ym mlwch A361 a llenwch flwch A362.

A340 llai (A330 + A333 + A334 + A353)

A356

Gall y blwch hwn fod yn negyddol

Os bydd mwy na 80% o'ch bil treth ar gyfer 2023 i 2024 yn cael ei dalu gan dreth a dalwyd wrth y ffynhonnell (hynny yw, os bydd blwch A356 yn llai na blwch A358) nid oes raid i chi wneud taliadau ar gyfrif ar gyfer 2024 i 2025. Nodwch sero '0' ym mlwch A361 a llenwch flwch A362.

A328 + A328a + A329

A357

A357 x 20%

A358

Swm pob taliad ar gyfrif

A356 x 50%

A359

## Cais i leihau taliadau ar gyfrif

Efallai y byddwch am leihau eich taliadau ar gyfrif ar gyfer 2024 i 2025 (gan gynnwys eu gostwng i sero) os disgwyliwch:

- eich incwm yn 2024 i 2025 i fod yn is nag yn 2023 i 2024
- bydd eich lwfansau neu eich rhyddhad yn uwch
- caiff mwy o'ch incwm ei drethu wrth y ffynhonnell yn 2024 i 2025 oherwydd
  – caiff ei drethu trwy TWE
  – caiff ei gwmpasu gan ddidyniadau isgontractwyr
  – bydd gennych fwy o incwm sy'n deillio o gynilion

Os ydych am ostwng eich taliadau ar gyfrif, rhaid i chi roi amcangyfrif rhesymol o'r gwahaniaeth rhwng y Dreth Incwm y disgwyliwch ei thalu yn 2024 i 2025 a'ch Treth Incwm ar y Ffurflen Dreth hon. Gallwch ostwng pob un o'ch taliadau gan hanner y gwahaniaeth hwn.

Ym mlwch 11 o'r tudalennau 'Crynodeb o'r cyfrifiad treth', nodwch swm bob taliad ar gyfrif gostyngol (gan gynnwys y ceiniogau), neu sero, os yn briodol, a rhowch 'X' ym mlwch 10. Rhowch eich rheswm dros ostwng eich taliadau ym mlwch 17. Os penderfynwch yn hwyrach bod eich taliadau gostyngol yn dal yn rhy uchel, ysgrifennwch atom i roi gwybod pam eich bod yn gwneud cais i ostwng y taliadau unwaith eto. Gwnewch yn siŵr y bydd y taliadau a wnewch erbyn 31 Ionawr 2025 a 31 Gorffennaf 2025 yn amcangyfrif teg o'ch bil treth ar gyfer 2024 i 2025.

Os bydd eich 2 daliad ar gyfrif yn wahanol i'ch bil treth ar gyfer 2023 i 2024 ac os ydych wedi talu:

- mwy nag sydd ei angen i chi, byddwn yn rhoi llog i chi
- llai na'r hyn sydd ei angen, byddwn yn codi llog arnoch

Dylai eich 2 daliad ar gyfrif fod y lleiaf o'r Dreth Incwm wirioneddol a'r CYG Dosbarth 4 sy'n ddyledus (y swm net ar ôl didynnu treth wrth y ffynhonnell a chredydau treth ar ddifidendau) ar gyfer 2023 i 2024 neu 2024 i 2025. Gallwn godi cosb arnoch os buoch yn dwyllodrus neu'n esgeulus wrth wneud cais i leihau eich taliadau ar gyfrif. Os penderfynwch yn hwyrach eich bod wedi ei ostwng yn ormodol, gallwch adolygu eich cais a'i gynyddu a/neu dalu mwy i gyd-fynd â'ch amcangyfrif wedi'i adolygu. Ond os na fyddwch yn gwneud cais, gallwn ddyrannu symiau ychwanegol a dalwyd gennych yn erbyn rhwymedigaethau sydd heb eu talu.

Swm y taliadau ar gyfrif gostyngol — A360 [ ]
Copïwch A360 i flwch 11 ar dudalennau 'Crynodeb o'r cyfrifiad treth' a llenwch flwch 10 ar dudalennau 'Crynodeb o'r cyfrifiad treth'

yr isaf o A359 ac A360 — A361 [ ]

**Swm sy'n ddyledus erbyn 31 Ionawr 2025**
Os yw blwch A362 yn bositif, dyma'r dreth sydd arnoch.
Os yw blwch A362 yn negyddol, dyma'r dreth sydd arnom i chi.

A355 + A361 — A362 [ ]
Gall y blwch hwn fod yn negyddol

Sylwer: os byddwch yn talu unrhyw beth tuag at eich bil treth 2023 i 2024 rhwng nawr a 31 Ionawr 2025, ac ni chafodd y taliad hwnnw ei gynnwys ym mlychau A350 neu A351, gostyngwch y ffigur ym mlwch A362 gan swm y taliad hwnnw. Os na thalwyd taliadau ar gyfrif 2023 i 2024 erbyn y dyddiadau dyledus (31 Ionawr 2024 a 31 Gorffennaf 2024), gallai llog fod yn ddyledus hefyd.

# Cadarnhad ynghylch ble y dylech nodi'r blychau ar y daflen waith hon ar y tudalennau 'Crynodeb o'r cyfrifiad treth'

1 **Cyfanswm y dreth, ad-daliadau Benthyciad Myfyriwr a CYG Dosbarth 4 sy'n ddyledus cyn unrhyw daliadau ar gyfrif**
Os mai canlyniad eich cyfrifiad yw bod arnoch dreth (mae ffigur ym mlwch A343), copïwch y ffigur o flwch A343 i flwch 1 ar y tudalennau 'Crynodeb o'r cyfrifiad treth'.

2 **Cyfanswm y dreth, ad-daliadau Benthyciad Myfyriwr a CYG Dosbarth 4 a ordalwyd**
Os mai canlyniad eich cyfrifiad yw eich bod wedi gordalu treth (mae ffigur ym mlwch A343a), copïwch y ffigur o flwch A343a i flwch 2 ar y tudalennau 'Crynodeb o'r cyfrifiad treth'.

3 **Ad-daliad benthyciad myfyriwr sy'n ddyledus**
Os gwnaethoch lenwi'r blwch ar gyfer Benthyciad Myfyriwr sy'n amodol ar incwm (Ad-daliadau Benthyciad Myfyriwr, blwch 1 ar dudalen TR 5 eich Ffurflen Dreth) copïwch y ffigur o flwch A333 i flwch 3 ar y tudalennau 'Crynodeb o'r cyfrifiad treth'. Peidiwch â chynnwys ceiniogau yn y blwch hwn; talgrynnwch y swm i lawr i'r bunt gyfan agosaf.

3.1 **Ad-daliad Benthyciad Ôl-raddedig yn ddyledus**
Os gwnaethoch lenwi'r blwch rhoi gwybod am Fenthyciad sy'n amodol ar Incwm (Ad-daliadau Benthyciadau, blwch 1 ar dudalen TR5 eich Ffurflen Dreth), copïwch y ffigur o flwch A334 i flwch 3.1 ar y tudalennau 'Crynodeb o'r cyfrifiad treth'.
Peidiwch â chynnwys ceiniogau; talgrynnwch y swm i'r bunt gyfan agosaf.

4 **CYG Dosbarth 4 sy'n ddyledus**
Os ydych yn hunangyflogedig, mewn partneriaeth busnes neu'n danysgrifennwr Lloyd's efallai y bydd yn rhai i chi dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4. Copïwch y ffigur o flwch A329 i flwch 4 ar y tudalennau 'Crynodeb o'r cyfrifiad treth'.

4.1 **CYG Dosbarth 2 sy'n ddyledus**
Os ydych yn hunangyflogedig, mewn partneriaeth busnes neu'n danysgrifennwr Lloyd's efallai y bydd yn rhai i chi dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2. Copïwch y ffigur o flwch A330 i flwch 4.1 ar y tudalennau 'Crynodeb o'r cyfrifiad treth'.

5 **Treth Enillion Cyfalaf sy'n ddyledus**
Os gwnaethoch lenwi tudalennau 'Crynodeb Treth Enillion Cyfalaf', copïwch y ffigur o flwch A341 i flwch 5 ar y tudalennau 'Crynodeb o'r cyfrifiad treth'.

6 **Taliadau ar gynilion pensiynau sy'n ddyledus**
Os gwnaethoch lenwi'r daflen waith yn Nhaflen Gymorth 345, 'Pensions savings tax charges', copïwch y ffigur o flwch A275 i flwch 6 ar y tudalennau 'Crynodeb o'r cyfrifiad treth'.

7 **Treth a dandalwyd mewn blynyddoedd cynharach a gynhwyswyd yn eich cod treth ar gyfer 2023 i 2024**
Os ydych yn talu treth o dan TWE, ac mae eich Hysbysiad Cod TWE ar gyfer 2023 i 2024 yn cynnwys cofnod ar gyfer 'swm y dreth a dandalwyd mewn blynyddoedd cynharach', copïwch y ffigur o flwch A332 i flwch 7 ar y tudalennau 'Crynodeb o'r cyfrifiad treth'.

8 **Treth a dandalwyd yn 2023 i 2024 a gynhwyswyd yn eich cod treth ar gyfer 2024 i 2025**
Os ydych yn talu treth o dan TWE, a gwnaethom ostwng eich cod treth yn 2023 i 2024 a gwnaethoch gais i gasglu unrhyw dreth oedd heb ei thalu drwy eich cod treth ar gyfer 2024 i 2025, copïwch y ffigur o flwch A338 i flwch 8 ar y tudalennau 'Crynodeb o'r cyfrifiad treth'.

9 **Dyled heb ei thalu a gynhwyswyd yn eich cod treth ar gyfer 2023 i 2024**
Os ydych yn talu treth o dan TWE, a bod cofnod yn eich Hysbysiad Cod TWE ar gyfer 2023 i 2024 mewn perthynas â 'dyled heb ei thalu' ar gyfer blwyddyn flaenorol, copïwch y ffigur o'r cod treth i flwch 9 ar y tudalennau 'Crynodeb o'r cyfrifiad treth'.

10 **Os ydych yn gwneud cais i ostwng eich taliadau ar gyfrif ar gyfer 2024 i 2025**
Rhowch 'X' ym mlwch 10 os ydych yn gwneud cais i ostwng eich taliadau ar gyfrif, a rhowch y rheswm am y gostyngiad ym mlwch 17. Gellir codi llog a chosbau arnoch os byddwch yn gostwng eich taliadau ar gyfrif yn ormodol. Darllenwch y nodiadau ar dudalen TCSN 26.

11 **Eich taliad cyntaf ar gyfrif ar gyfer 2024 i 2025**
Os ydych yn gwneud cais i ostwng eich taliadau ar gyfrif ar gyfer 2024 i 2025, copïwch y ffigur o A360 i flwch 11 ar y tudalennau 'Crynodeb o'r cyfrifiad treth'.

12 a 13 **Lwfans person dall sydd dros ben y gallwch ei gael, a swm y lwfans pâr priod sydd dros ben** y **gallwch ei gael**
Os nad oedd gan eich priod neu eich partner sifil ddigon o incwm yn y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2024 i ddefnyddio rhan neu'r cyfan o'r Lwfans Pâr Priod neu Lwfansau Person Dall (os yn ddyledus), gallwch ofyn i ni drosglwyddo'r hyn sydd dros ben i chi. Os ydych yn ansicr p'un a allwch gael y lwfansau sydd dros ben oddi wrth eich priod neu eich partner sifil, gofynnwch i ni neu eich ymgynghorydd treth.

Os ydych wedi cytuno ar swm y gellir ei drosglwyddo, yna nodwch unrhyw lwfans person dall sydd dros ben ym mlwch 12, a lwfans pâr priod sydd dros ben ym mlwch 13 ar y tudalennau 'Crynodeb o'r cyfrifiad treth'

14 i 16 Os yw swm y dreth sy'n ddyledus yn 2023 i 2024 yn cael ei effeithio gan addasiadau i flynyddoedd treth eraill, darllenwch y nodiadau ar dudalen TCSN 24.

- copïwch y ffigur o flwch A346 i flwch 14
- copïwch y ffigur o flwch A348 i flwch 15
- copïwch y ffigur o flwch A349 i flwch 16

**Os bydd angen i chi lenwi unrhyw flychau ar dudalennau TCSN 30 i TCSN 52, dylai'r daflen waith ar y tudalennau blaenorol fod wedi eich cyfeirio atynt eisoes.**

Yn fyr, mae'r tudalennau nesaf yn cwmpasu:

- Lwfans Personol a Lwfans Pâr Priod ar sail oedran
- cyfrifo cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4
- Rhyddhad Haenen Uchaf os bydd unrhyw enillion ar bolisïau bywyd wedi eich gwneud yn agored i dreth ar y gyfradd uwch
- cyfrifo Treth Enillion Cyfalaf
- cyfrifo'r tâl treth ar Fudd-dal Plant
- cyfrifo ad-daliadau Benthyciad Myfyriwr a Benthyciad Ôl-raddedig

# Adran 13: Cyfrifwch y Lwfans Personol sy'n ddyledus os yw eich incwm yn fwy na £100,000

Os oes unrhyw flwch ar y dudalen hon yn cynnwys ffigur minws, rhowch sero yn ei le.

## Incwm ar gyfer lwfansau

Incwm net wedi'i addasu — **B1** (o A121)

Os cawsoch chi eich geni ar ôl 5 Ebrill 1938 ond cafodd eich priod neu eich partner sifil ei eni/geni cyn 6 Ebrill 1935, bydd angen y ffigurau o flychau B4 a B6 arnoch pan fyddwch yn cyfrifo'r Lwfans Pâr Priod.

Terfyn incwm ar gyfer Lwfans Personol — **B2** £100,000

**B3** (B1 llai B2)

Lwfans Personol — **B4** £12,570 (Copïwch i flwch C6)

**B5** (B3 x 50%)

Lwfans Personol Gostyngol — **B6** (B4 llai B5) (Copïwch i flychau A125 a C7)

Cyfrifwch y lwfans personol sy'n ddyledus ar gyfer cyfrifiad eich Rhyddhad Haenen Uchaf, pan fo'ch incwm yn fwy na £100,000

**Defnyddiwch flychau B7 i B12 dim ond os gofynnwyd i chi wneud hynny ar dudalennau TCSN 37 i TCSN 41** — **B7** ((A86 + E21) llai E20)

Terfyn incwm ar gyfer Lwfans Personol — **B8** £100,000

**B9** (B7 llai B8)

Lwfans Personol — **B10** £12,570

**B11** (B9 x 50%)

Lwfans Personol ar gyfer Rhyddhad Haenen Uchaf yn unig — **B12** (B10 llai B11) (Copïwch i flwch E61)

# Adran 14: Cyfrifwch y Lwfans Pâr Priod ar sail oedran sy’n ddyledus

Os oes unrhyw flwch ar y dudalen hon yn cynnwys ffigur minws, rhowch sero yn ei le.

Cyfrifwch y Lwfans Pâr Priod os ydych chi, eich priod neu eich partner sifil (neu cyn-wraig yr oeddech yn briod â hi yn 2023 i 2024) wedi eich geni cyn 6 Ebrill 1935.

Os mai chi yw’r gŵr (a gwnaethoch briodi cyn 5 Rhagfyr 2005), neu’r priod neu’r partner sifil gyda’r incwm uchaf, defnyddiwch flychau C1 i C11 i gyfrifo’r Lwfans Pâr Priod.

Os mai chi yw’r wraig (a gwnaethoch briodi cyn 5 Rhagfyr 2005) ac mae eich gŵr wedi trosglwyddo Lwfans Pâr Priod i chi, ewch i flwch C16.

Os mai chi yw’r priod neu’r partner sifil gyda’r incwm isaf ac mae eich priod neu eich partner sifil (gyda’r incwm uchaf) wedi trosglwyddo’r Lwfans Pâr Priod i chi, ewch i flwch C16.

## Tabl 1

| **Dyddiad geni** yr hynaf ohonoch chi, eich priod, eich partner sifil, neu eich cyn-wraig neu eich cyn-bartner sifil | **Uchafswm y Lwfans Pâr Priod** |
|---|---|
| Ar ôl 5 Ebrill 1935 | 0 |
| Cyn 6 Ebrill 1935 | £10,375 |

Nodwch uchafswm y Lwfans Pâr Priod o Dabl 1 — C1

Incwm net wedi'i addasu — o B1 — C2

Terfyn incwm ar gyfer lwfansau ar sail oedran — C3 **£34,600**

C2 llai C3 — C4

C4 x 50% — C5

o B4 — C6

o B6 — C7

C6 llai C7 — C8

C5 llai C8 — C9

C1 llai C9 — C10

yr uchaf o C10 a £4,010 — C11

Copïwch i flwch A256 ar dudalen TCSN 17 oni bai eich bod yn briod neu wedi eich cofrestru’r flwyddyn hon neu oni bai bod eich priod neu bartner sifil yn cael hanner y lwfans neu'r lwfans cyfan

## Cyfrifwch y Lwfans Pâr Priod gostyngol sy'n ddyledus

Os oes unrhyw flwch ar y dudalen hon yn cynnwys ffigur minws, rhowch sero yn ei le.

Os oedd eich priodas neu gofrestriad eich partneriaeth sifil ar ôl 5 Mai 2023, a chafodd naill ai chi neu eich priod, neu eich partner sifil eich geni cyn 6 Ebrill 1935, cyfrifwch y Lwfans Pâr Priod gostyngol sy'n ddyledus.

## Tabl 2

| Dyddiad y briodas neu gofrestriad y bartneriaeth sifil rhwng: | Mis |
|---|---|
| Cyn 6 Mai 2023 | 0 |
| 6 Mai 2023 a 5 Mehefin 2023 | 1 |
| 6 Mehefin 2023 a 5 Gorffennaf 2023 | 2 |
| 6 Gorffennaf 2023 a 5 Awst 2023 | 3 |
| 6 Awst 2023 a 5 Medi 2023 | 4 |
| 6 Medi 2023 a 5 Hydref 2023 | 5 |
| 6 Hydref 2023 a 5 Tachwedd 2023 | 6 |
| 6 Tachwedd 2023 a 5 Rhagfyr 2023 | 7 |
| 6 Rhagfyr 2023 a 5 Ionawr 2024 | 8 |
| 6 Ionawr 2024 a 5 Chwefror 2024 | 9 |
| 6 Chwefror 2024 a 5 Mawrth 2024 | 10 |
| 6 Mawrth 2024 a 5 Ebrill 2024 | 11 |
| Ar ôl 5 Ebrill 2024 | 12 |

Dewiswch y mis o Dabl 2

C12

C11 x C12

C13

C13 wedi'i rannu â 12

C14

C11 llai C14

C15

Copïwch i flwch A256 ar dudalen TCSN 17 oni bai bod eich priod neu eich partner sifil yn cael hanner y lwfans neu'r lwfans cyfan

Os oes unrhyw flwch ar y dudalen hon yn cynnwys ffigur minws, rhowch sero yn ei le.

Os mai chi yw'r wraig, neu'r priod neu'r partner sifil gyda'r incwm isaf defnyddiwch flychau C16 i C20 i gyfrifo swm y Lwfans Pâr Priod y gellir ei drosglwyddo i chi.

Os mai chi yw'r gŵr, neu'r priod neu'r partner sifil gyda'r incwm uchaf defnyddiwch flychau C16 i C21 os ydych am i'ch priod neu'ch partner sifil gael hanner y lwfans neu'r lwfans cyfan.

## Tabl 3: O'r blwch Lwfans Pâr Priod ar dudalennau 'Gwybodaeth ychwanegol', tudalen Ai 3

| | |
|---|---|
| Os oes 'X' ym mlwch 3 neu flwch 6 | £2,005 |
| Os oes 'X' ym mlwch 4 neu flwch 7 | £4,010 |
| Dim un o'r uchod | 0 |

Dim ond hanner yr isafswm neu'r isafswm cyfan o'r Lwfans Pâr Priod, sef £4,010, y gellir ei drosglwyddo.

Dewiswch y swm o Dabl 3 — C16

Dewiswch y mis o Dabl 2 — C17

C16 x C17 — C18

C18 wedi'i rannu â 12 — C19

Os mai chi yw'r wraig, neu'r priod neu'r partner sifil gyda'r incwm isaf, llenwch flwch C20

C16 llai C19 — C20

Copïwch i flwch A256 ar dudalen TCSN 17

Os mai chi yw'r gŵr, neu'r priod neu'r partner sifil gyda'r incwm uchaf, llenwch flwch C21

C15 llai C20 — C21

Copïwch i flwch A256 ar dudalen TCSN 17

# Adran 15: Cyfrifwch y CYG Dosbarth 2 a CYG Dosbarth 4 sy'n ddyledus

Mae'n rhaid i bawb sydd dros 16 oed, ac o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth, os ydynt yn hunangyflogedig (neu mewn partneriaeth), ac sydd ag elw uwchlaw £12,570 ar gyfer 2023 i 2024, dalu cyfraniadau Dosbarth 2 bob wythnos. Os yw eu helw yn is na £6,725 gallant ddewis talu'n wirfoddol.

Ni fydd angen i gwsmeriaid sydd ag elw rhwng £6,725 a £12,570 dalu unrhyw beth, a bydd eu cyfraniadau Dosbarth 2 yn cael eu trin fel pe baent wedi'u talu er mwyn diogelu eu hawl i fudd-daliadau cyfraniadol.

Mae'n rhaid i chi fod wedi eich cofrestru'n hunangyflogedig er mwyn talu CYG Dosbarth 2 neu i dalu'n wirfoddol. Mae'r cyfraniadau hyn yn cyfrif tuag at unrhyw fudd-daliadau cyfrannol y mae'n bosibl y byddech am eu hawlio. Os ydych wedi eich cofrestru ar gyfer Hunanasesiad ond heb gofrestru'n hunangyflogedig, ewch i www.gov.uk/cofrestru-ar-gyfer-a-chyflwynoch-ffurflen-dreth-hunanasesiad/hunangyflogedig

## Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4

Llenwch yr adran hon os gwnaethoch lenwi'r tudalennau 'Hunangyflogaeth (byr)', 'Hunangyflogaeth (llawn)', tudalennau 'Tanysgrifenwyr Lloyd's,' tudalennau 'Partneriaeth (byr)' neu 'Partneriaeth (llawn)'. Os oes unrhyw flwch ar y dudalen hon yn cynnwys ffigur minws, rhowch sero yn ei le.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tudalennau 'Hunangyflogaeth (byr)' | blwch 31 | D1 | |
| Tudalennau 'Hunangyflogaeth (llawn)' | blwch 76 | D2 | |
| Tudalennau 'Hunangyflogaeth (llawn)' | blwch 73.3 llai blwch 73.4 | D2a | |
| Tudalennau 'Tanysgrifenwyr Lloyd's' | blwch 52 | D3 | |
| Tudalennau 'Partneriaeth (byr)' | blwch 20 | D4 | |
| Tudalennau 'Partneriaeth (llawn)' | blwch 20 | D5 | |
| Tudalennau 'Partneriaeth (llawn)' | blwch 16.3 llai blwch 16.4 | D5a | |
| Cyfanswm yr elw ar gyfer CYG Dosbarth 4 | cyfanswm D1 i D5a | D6 | |

## Addasiad i elw CYG Dosbarth 4

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tudalennau 'Hunangyflogaeth (llawn)' | blwch 102 | D7 | |
| Tudalennau 'Tanysgrifenwyr Lloyd's' | blwch 65 | D8 | |
| Tudalennau 'Partneriaeth (byr)' | blwch 27 | D9 | |
| Tudalennau 'Partneriaeth (llawn)' | blwch 27 | D10 | |
| Cyfanswm yr addasiadau ar gyfer CYG Dosbarth 4 | cyfanswm D7 i D10 | D11 | |
| Cyfanswm yr elw llai'r addasiad | D6 llai D11 | D12 | |
| Yr elw y mae CYG Dosbarth 4 yn ddyledus arno | D12 llai £12,570 | D13 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| yr isaf o flwch D13 a £37,700 | D14 | D14 x 9% (uchafswm £3,393.00) | D15 |
| D13 llai D14 | D16 | D16 x 2.73% | D17 |

CYG Dosbarth 4 sy'n ddyledus — D15 + D17 — D18

Copïwch i flwch A329 ar dudalen TCSN 23

Os oes unrhyw flwch ar y dudalen hon yn cynnwys ffigur minws, rhowch sero yn ei le, oni bai y nodir yn wahanol.

Os ydych wedi talu Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 llenwch y cyfrifiad R100 dros y dudalen.
Os yw swm y CYG Dosbarth 4 sydd i'w roi ym mlwch D32 yn llai na'r swm ym mlwch D18, copïwch y ffigur i D18.

## CYG Dosbarth 2

Rydych yn talu cyfraniadau Dosbarth 2 os ydych yn hunangyflogedig. Ar gyfer 2023 i 2024, mae cyfraniadau Dosbarth 2 yn £3.45 yr wythnos, neu £4.10 ar gyfer pysgotwyr cyfran. Os yw eich elw (D12) yn llai na £6,725 ar gyfer 2023 i 2024, gallwch ddewis talu CYG Dosbarth 2 yn wirfoddol. Os yw'ch elw rhwng £6,725 a £12,570 yna D19 = 0

D19

## Cyfrifiad CYG Dosbarth 4 yn dilyn Rheoliad 100, SS(C)R 2001

Weithiau, caiff y CYG Dosbarth 4 sy'n daladwy ei gyfyngu, fel nad yw rhywun sydd ag enillion o gyflogaeth ac o hunangyflogaeth yn talu cryn dipyn yn fwy o Yswiriant Gwladol na rhywun sydd â lefel debyg o enillion, ond dim ond o un gyflogaeth.

Mae NIM24175 yn amlinellu'r dull cyfrifo ar gyfer pennu'r uchafswm o CYG Dosbarth 4. Bydd uchafswm y CYG Dosbarth 4 sy'n ddyledus yn amrywio, yn ddibynnol ar lefel elw'r cyfrannwr a swm y CYG Dosbarth 1 a Dosbarth 2 a dalwyd. Bydd pob cyfrannwr sy'n agored i dalu CYG Dosbarth 1 a Dosbarth 4, yn gorfod talu naill ai:

- CYG Dosbarth 4 ar y brif ganran CYG Dosbarth 4 yn unig
- cymysgedd o CYG Dosbarth 4 ar y brif ganran CYG Dosbarth 4 a'r ganran CYG Dosbarth 4 ychwanegol
- CYG Dosbarth 4 ar y ganran CYG Dosbarth 4 yn unig

Elw y mae CYG Dosbarth 4 yn ddyledus arno

D20 (o D13)

Nodwch enillion sy'n agored i CYG Dosbarth 1 o bob cyflogaeth, colofn 1c o'r P60 (enillion o'r Prif Drothwy i Bwynt Croniad Uchaf) + colofn 1d o'r P60 (enillion o'r Pwynt Croniad Uchaf i'r Terfyn Enillion Uchaf)

D21

Enillion o'r Prif Drothwy i'r Terfyn Enillion Uchaf ar y prif ganran

D22 (D21 x 11.5%)

**Cam 1 a Cam 2**

Tynnwch y Terfyn Elw Isaf (£12,570) o'r Terfyn Elw Uchaf (£50,270) ar gyfer y flwyddyn. Lluoswch y canlyniad â 9%. Mae hwn yn £3,393.00.

D23 **£3,393.00**

**Cam 3**

Ychwanegwch at ganlyniad cam 2, 53 wythnos o CYG Dosbarth 2 ar y gyfradd a oedd mewn grym ar gyfer y flwyddyn, fel arfer £182.85. Fe fydd yn £217.30 ar gyfer pysgotwyr cyfran.

D24

D25 (D23 + D24)

**Cam 4**

O'r canlyniad ar gyfer cam 3, tynnwch gyfanswm y CYG Dosbarth 2 a CYG Dosbarth 1 ar y brif ganran gynradd y mae'r cyfrannwr wedi'u talu.

D26 (D25 llai (D19 + D22))

Os yw canlyniad cam 4 (D26) yn hafal i neu’n fwy na 0 (sero) ac yn fwy na chyfanswm:

- CYG Dosbarth 1 cynradd sy'n daladwy ar y brif ganran (D22)
- CYG Dosbarth 2 (D19)
- CYG Dosbarth 4 sy'n daladwy ar brif ganran CYG Dosbarth 4 y byddech wedi'u talu pe na bai'r uchafswm yn bodoli (D13 x 9.73%)

canlyniad y cam hwn yw'r uchafswm CYG Dosbarth 4 yr ydych yn agored i'w dalu. Does dim rhaid mynd ymlaen yn bellach.

Os yw D26 yn is na D18, copïwch D26 i D18, os nad, cadwch y ffigur is yn D18.

Os nad yw'r uchod yn gymwys, cwblhewch gamau 5 i 9.

**Cam 5**

Lluoswch ganlyniad cam 4 â 9%

D26 x 9%

D27

**Cam 6**

Tynnwch y terfyn elw isaf, o'r lleiaf o'r terfyn elw uchaf ac elw'r cyfrannwr ar gyfer y flwyddyn

yr isaf o (D12 neu £50,270) llai (£12,570)

D28

Gall y blwch hwn fod yn negyddol

**Cam 7**

Tynnwch ganlyniad cam 5 o ganlyniad cam 6.
Os yw'r canlyniad yn ffigur negyddol, caiff ei drin fel sero

D28 llai D27

D29

**Cam 8**

Lluoswch ganlyniad cam 7 â 2.73%

D29 x 2%

D30

**Cam 9**

Lluoswch y swm y mae'r elw ac enillion ar gyfer y flwyddyn yn fwy na'r terfyn elw uchaf â 2.73%

(D12 llai £50,270) x 2%

D31

Uchafswm y CYG Dosbarth 4 sy'n daladwy yw cyfanswm camau 4, 8 a 9.
Os yw D32 yn llai na D18, copïwch D32 i D18

D26 + D30 + D31

D32

# Adran 16: Cyfrifwch y Rhyddhad Haenen Uchaf

Llenwch yr adran hon os oes gennych enillion o bolisïau bywyd.

Os oes unrhyw flwch ar y dudalen hon yn cynnwys ffigur minws, rhowch sero yn ei le.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr incwm | | | E1 (o A81) | |
| Cyfandaliadau | | E2 (o A44) | | |
| Tudalennau 'Eiddo yn y DU' | blwch 22 | E3 | E4 (E2 + E3) | |
| | | | E5 (E1 llai E4) | |
| Cyfanswm y lwfansau a'r didyniadau | | E6 (o A130) | | |
| Cyfrannu at elusennau | | E7 (o A110) | E8 (E6 llai E7) | |
| Incwm trethadwy ar gyfer haenen uchaf | | | E9 (E5 llai E8) | |
| Terfyn y gyfradd sylfaenol | | E10 £37,700 | | |
| Talu pensiynau personol | | E11 (o A118) | E12 (E10 + E11) | |
| Swm sy'n ddyledus ar y cyfraddau uwch | | | E13 (E9 llai E12) | |

Os yw blwch E13 yn sero yna nid oes Rhyddhad Haenen Uchaf yn ddyledus. Copïwch '0' i flwch A243 ar dudalen TCSN 17. Os oes gennych enillion cyfalaf ewch i flwch E21, fel arall anwybyddwch flychau E14 i E87.

| | | |
|---|---|---|
| | E14 £87,440 | |
| Swm sy'n ddyledus ar y gyfradd uwch | E15 (yr isaf o E13 a E14) | E16 (E15 x 40%) |
| Swm sy'n ddyledus ar y gyfradd ychwanegol | E17 (E13 llai E15) | E18 (E17 x 45%) |
| | | E19 (E16 + E18) |

Os oes unrhyw flwch ar y dudalen hon yn cynnwys ffigur minws, rhowch sero yn ei le.

| Enillion ar bolisïau bywyd | Nifer y blynyddoedd | Enillion ar bolisïau bywyd wedi'u rhannu â nifer y blynyddoedd |
|---|---|---|
| **Colofn X: Copïwch o'r blychau** Tudalennau 'Tramor' blwch 43, tudalennau 'Gwybodaeth ychwanegol', tudalen Ai 1 (Enillion yswiriant bywyd) blychau 4, 6 ac 8, neu'r blwch 'Gwybodaeth ychwanegol', blwch 21 ar dudalen Ai4 | **Colofn Y: Copïwch o'r blychau** Tudalennau 'Tramor' blwch 44, tudalennau 'Gwybodaeth ychwanegol', tudalen Ai 1 (Enillion yswiriant bywyd) blychau 5, 7 ac 9, neu'r blwch 'Gwybodaeth ychwanegol', blwch 21 ar dudalen Ai4 | **X wedi'i rannu ag Y** |
| X | Y | Z |
| X | Y | Z |
| X | Y | Z |
| X | Y | Z |
| X | Y | Z |
| X | Y | Z |
| Cyfanswm y golofn uchod E20 | | Cyfanswm y golofn uchod E21 |

Rhwymedigaeth ar y cyfraddau uwch ar yr ennill/enillion llawn

| | | | |
|---|---|---|---|
| Incwm nad yw'n deillio o gynilion | A124 llai E3 E22 | | E22 llai E8 E23 |
| Cynilion (ar wahân i enillion ar bolisïau bywyd heb dreth dybiannol) | A64 llai (A50 + A63) E24 | E8 llai E22 E25 | E24 llai E25 E26 |
| Cynilion uchafswm haen SR | yr isaf o E26 ac haen SR (£5,000) E27 | | |
| Cynilion yn yr haen SR | | | yr isaf o E27 a (haen SR (£5,000) llai E23) E28 |
| Cynilion uchafswm haen sero | | | yr isaf o (E26 llai E28) E28) ac A138 E29 |
| Difidendau | o A77 E30 | E25 llai E24 E31 | E30 llai E31 E32 |
| Trethadwy | | | E23 + E26 + E32 E33 |
| Enillion Digwyddiad Trethadwy | | E31 llai E30 E34 | E20 llai E34 E35 |
| Haen gyfradd gychwynnol | yr isaf o E35 ac haen SR (£5,000) E36 | | |

Os oes unrhyw flwch ar y dudalen hon yn cynnwys ffigur minws, rhowch sero yn ei le.

Enillion yn yr haen SR

yr isaf o E36 ac (haen SR (£5,000) llai E33)
E37

E37 x cyfradd SR (0%)
E38

haen SR (£5,000) llai E23
E39

E26 llai E39
E40

Enillion yn yr haen Sero

yr isaf o (E35 llai E37) ac (A138 llai E40)
E41

E41 x cyfradd SNil (0%)
E42

Haen BR a defnyddir gan incwm arall

yr isaf o E33 ac E12
E43

Enillion yn yr haen BR

yr isaf o (E35 llai (E37 + E41)) ac (E12 llai (E37 + E41 + E43))
E44

E44 x cyfradd BR (20%)
E45

Haen HR a defnyddir gan incwm arall

yr isaf o E33 ac E41
E46

Enillion yn yr haen HR

yr isaf o (E35 llai (E37 + E41 + E44) ac (haen HR (£87,440) llai E46)
E47

E47 x cyfradd HR (40%)
E48

Enillion yn yr haen gyfradd ychwanegol

E35 llai (E37 + E41 + E44 + E47)
E49

E49 x cyfradd AHR (45%)
E50

E38 + E42 + E45 + E48 + E50
E51

E35 x cyfradd BR (20%)
E52

Llai rhwymedigaeth gyfradd sylfaenol

E51 llai E49
E53

Cyfraddau uwch sy'n ddyledus ar gyfran o'r enillion

E5 + E21
E54

E54 llai E20
E55

E55 llai E8
E56

Incwm yn yr haen gyfradd uwch

E56 llai E12
E57

Cyfran o'r enillion mewn haenau cyfradd uwch

yr isaf o E21 ac E57
E58

Incwm arall yn yr haen gyfradd uwch

E57 llai E58
E59

Haen gyfradd uwch nas defnyddiwyd

E15 llai E59
E60

Os yw E60 yn (0), nid yw Rhyddhad Haenen Uchaf yn ddyledus.
Copïwch '0' i flwch A243 ar dudalen TCSN 17 ac anwybyddwch flychau i E96.

Os oes unrhyw flwch ar y dudalen hon yn cynnwys ffigur minws, rhowch sero yn ei le.

Os yw A125 yn llai na'r Lwfans Personol, sef £12,570, yna efallai y bydd yn fwy buddiol i chi ei ailgyfrifo. Gallwch wneud hyn drwy ddefnyddio blychau B7 i B12 ar dudalen TCSN 30.

| Disgrifiad | Blwch | Cyfrifiad |
| --- | --- | --- |
| | E61 | yr uchaf o E6 a (B12 + E6) |
| Cyfanswm didyniadau a lwfansau llai rhoddion ar ffurf buddsoddiadau | E62 | E61 llai E7 |
| Lwfans Personol ar gyfer Rhyddhad Haenen Uchaf | E63 | E62 llai E8 |
| Incwm nad yw'n deillio o gynilion | E64 | E23 llai E63 |
| Cynilion (ar wahân i enillion ar bolisïau bywyd heb dreth dybiannol) | E65 | E63 llai E23 |
| | E66 | E26 llai E65 |
| Cynilion uchafswm haen SR | E67 | yr isaf o E66 ac haen SR (£5,000) |
| | E68 | yr isaf o E67 ac (haen SR (£5,000) llai E64) |
| Cynilion yn yr haen SR | E69 | yr isaf o E28 ac E68 |
| | E69.1 | (A81 + E21) llai E20 |
| | E69.2 | os E69.1 llai E61 > haen AHR (£125,140) + E11, E69.2 = PSA (£0), fel arall os E69.1 llai E61 > haen BR (£37,700) + E11, E69.2 = PSA (£1000), fel arall E69.2 = PSA (£500) |
| Cynilion uchafswm haen sero | E70 | yr isaf o (E66 llai E68) ac E69.2 |
| Difidendau | E71 | E65 llai E26 |
| | E72 | E32 llai E71 |
| Trethadwy | E73 | E64 + E66 + E72 |
| Lwfans sydd ar gael | E74 | E62 llai (E22 + E24 + E30) |
| Enillion Digwyddiad Trethadwy | E75 | E21 llai E74 |
| | E76 | yr isaf o E75 ac haen SR (£5,000) |
| | | Ni ddefnyddir blwch E77 |
| Enillion yn yr haen SR | E78 | yr isaf o E76 ac (haen SR (£5,000) llai E73) |
| | E79 | E78 x (0%) |
| | | Ni ddefnyddir blwch E80 |
| Enillion yn yr haen sero | E81 | yr isaf o (E75 llai E78) ac (E69.2 llai E70) |
| | E82 | E81 x (0%) |

Os oes unrhyw flwch ar y dudalen hon yn cynnwys ffigur minws, rhowch sero yn ei le.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Haen BR a defnyddir gan incwm arall | yr isaf o E73 ac E12<br>**E83** | | |
| Enillion yn yr haen BR | yr isaf o (E75 llai (E78 + E81)) ac (E12 llai (E78 + E81 + E83))<br>**E84** | E84 x (20%)<br>**E85** | |
| Haen HR a defnyddir gan incwm arall | E73 llai E83<br>**E86** | | |
| Enillion yn yr haen HR | yr isaf o (E75 llai (E78 + E81 + E84)) ac (haen HR (£87,440) llai E86)<br>**E87** | E87 x (40%)<br>**E88** | |
| Enillion yn yr haen gyfradd ychwanegol | E75 llai (E78 + E81 + E84 + E87)<br>**E89** | E89 x (45%)<br>**E90** | |

Os yw E89 yn hafal i E21, nid oes Rhyddhad Haenen Uchaf yn ddyledus. Copïwch ‘0’ i flwch A243 ar dudalen TCSN 17 ac anwybyddwch flychau E91 i E96

E79 + E82 + E85 + E88 + E90
**E91**

E75 x 20%
**E92**

Rhwymedigaeth am un flwyddyn

E91 llai E92
**E93**

E20 wedi'i rhannu â E21
**E94**

Rhwymedigaeth am bob blwyddyn

E93 x E94
**E95**

Rhyddhad Haenen Uchaf sy’n ddyledus

E53 llai E95
**E96**

Copïwch i flwch A243 ar dudalen TCSN 17

# Adran 17: Cyfrifwch y Rhyddhad am Ddiffyg

Llenwch yr adran hon os ydych yn hawlio Rhyddhad am Ddiffyg.
Os oes unrhyw flwch ar y dudalen hon yn cynnwys ffigur minws, rhowch sero yn ei le.

**Dyrannwch y Rhyddhad am Ddiffyg i ddifidendau yn yr haen gyfradd uwch**

### Rhyddhad am Diffyg

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tudalennau 'Gwybodaeth ychwanegol', tudalen Ai 1 (Enillion yswiriant bywyd) blwch 11 | | F1 | |
| Difidendau yn yr haen gyfradd uwch | o A194 | F2 | |
| Swm a symudwyd i haen gyfradd is | yr isaf o F1 ac F2 | F3 | |
| Addasiad treth | F3 x 25% | F4 | |

**Dyrannwch y Rhyddhad am Ddiffyg i gynilion ac incwm nad yw'n deillio o gynilion yn yr haen gyfradd uwch**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y Rhyddhad am Ddiffyg sy'n weddill | F1 llai F3 | F5 | |

Os ydych yn gwsmer yn yr Alban anwybyddwch flychau F6 i F8, fel arall anwybyddwch flychau F9 i F15

| | | | |
|---|---|---|---|
| Incwm yn yr haen gyfradd uwch | A169 + A181 + A201 + A213 | F6 | |
| Swm a symudwyd i'r haen gyfradd sylfaenol | yr isaf o F5 ac F6 | F7 | |
| Addasiad treth | F7 x 20% | F8 | |

**Dyrannwch y Rhyddhad am Ddiffyg i incwm sy'n agored i dreth ar yr uchaf o gyfradd uwch yr Alban a'r gyfradd uwch**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Incwm yn yr haen gyfradd uwch | A169 + A201 | F9 | |
| Swm a symudwyd i haen gyfradd is | yr isaf o F5 ac F9 | F10 | |
| Addasiad treth | F7 x 21% | F11 | |

**Dyrannwch y Rhyddhad am Ddiffyg i incwm sy'n agored i dreth ar yr isaf o gyfradd uwch yr Alban a'r gyfradd uwch**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y Rhyddhad am Ddiffyg sy'n weddill | F5 llai (F7 + F10) | F12 | |
| Incwm yn yr haen gyfradd uwch | A182 + A202 | F13 | |
| Swm a symudwyd i haen gyfradd is | yr isaf o F12 ac F13 | F14 | |
| Addasiad treth | F14 x 20% | F15 | |
| Rhyddhad Treth sy'n ddyledus | F4 + F8 + F11 + F15 | F16 | |

Copïwch i flwch A242 ar dudalen TCSN 17

# Adran 18: Cyfrifwch y Dreth Enillion Cyfalaf sy’n ddyledus

Os oes unrhyw flwch ar y dudalen hon yn cynnwys ffigur minws, rhowch sero yn ei le.

Mae pob un o'r blychau ar y dudalen hon yn dod o dudalennau 'Crynodeb Treth Enillion Cyfalaf', ar wahân i Ryddhad Credyd Treth Dramor yn G53 sydd o'r tudalennau 'Tramor'.

| | Eiddo preswyl a llog wedi'i gario | Treth Enillion Cyfalaf ar gyfer Person nad yw'n Breswyl Eiddo preswyl yn y DU | Treth Enillion Cyfalaf ar gyfer Person nad yw'n Breswyl Eiddo yn y DU nad yw'n breswyl | Enillion eraill | Enillion Gwaredu Ased Busnes |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm enillion | blwch 6<br>G1 | blwch 52.1<br>G2 | blwch 52.2<br>G2a | blychau (17 llai 50) + 26 + (34 llai 49)<br>G3 | blychau 49 + 50<br>G4 |
| Colledion a ddygwyd ymlaen ac a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | blwch 45<br>G5 | **Ni ddefnyddir blwch G6** | | G5 llai G1<br>G7 | G5 llai (G1 + G3)<br>G8 |
| Enillion ar ôl colledion a ddygwyd ymlaen | G1 llai G5<br>G9 | **Ni ddefnyddir blwch G10** | | G3 llai G7<br>G11 | G4 llai G8<br>G12 |
| Colledion | blwch 7<br>G13 | | | | |
| Colledion | blychau 19 + 27 + (35 llai (41 + 43))<br>G14 | | | | |
| Colledion incwm yn 2023 i 2024 a osodwyd yn erbyn enillion | blwch 46<br>G15 | | | | |
| Cyfanswm colledion | G13 + G14 + G15<br>G16 | blwch 52.5<br>G16a | G16a llai G2<br>G16b | G16 llai G9<br>G17 | G16 llai (G9 + G11)<br>G18 |
| Enillion ar ôl colledion | G9 llai G16<br>G19 | G2 llai G16a<br>G19a | G2a llai G16b<br>G19b | G11 llai G17<br>G20 | G12 llai G18<br>G21 |
| Enillion priodoledig | | | | blwch 18<br>G22 | |
| Cyfanswm enillion ar ôl colledion | | | | G19b + G20 + G22<br>G23 | |
| Swm Blynyddol sydd wedi'i Eithrio rhag Treth | G24 **£6,000** | | | G24 llai (G19 + G19a)<br>G25 | G25 llai G28<br>G26 |
| Enillion ar ôl Swm Blynyddol sydd wedi'i Eithrio rhag Treth, a cholledion | G19 + G19a llai G24<br>G27 | | | G23 llai G25<br>G28 | G21 llai G26<br>G29 |
| Enillion sy'n drethadwy ar 10% | | | | | G29 x 10%<br>G30 |

Os oes unrhyw flwch ar y dudalen hon yn cynnwys ffigur minws, rhowch sero yn ei le, oni bai y nodir yn wahanol.

**Incwm trethadwy**

o A164 — G31

Os oes gennych enillion o bolisïau bywyd yna copïwch E21 i G32, fel arall nodwch sero (0) yn G32.

Enillion ar sail blwyddyn — G32 — G33 (G31 + G32)

Os oes gennych enillion o bolisïau bywyd yna copïwch E20 i G34, fel arall nodwch sero (0) yn G34.

Cyfanswm enillion ar bolisïau bywyd — G34 — G35 (G33 llai G34)

## Rhyddhad am Ddiffyg

G36 (o F1) — G37 (G35 llai G36)

Haen gyfradd sylfaenol — G38 (haen BR (£37,700) + A119)

Haen gyfradd sylfaenol sydd ar gael i enillion cyfalaf — G39 (G38 llai G37)

Haen gyfradd sylfaenol sydd heb ei defnyddio ac sydd ar gael i'w defnyddio — G40 (G39 llai G29)

Enillion sy'n drethadwy ar 18% — G41 (yr isaf o G27 a G40) — G42 (G41 x 18%)

Enillion sy'n drethadwy ar 28% — G43 (G27 llai G41) — G44 (G43 x 28%)

Haen gyfradd sylfaenol sydd ar gael ar ôl Treth Enillion Cyfalaf ar gyfer Person nad yw'n Breswyl — G45 (G40 llai G27)

Enillion sy'n drethadwy ar 10% — G46 (yr isaf o G28 a G45) — G47 (G46 x 10%)

Enillion sy'n drethadwy ar 20% — G48 (G28 llai G46) — G49 (G48 x 20%)

Treth Enillion Cyfalaf sy'n ddyledus ar yr holl enillion — G50 (G30 + G42 + G44 + G47 + G49)

## Addasiadau Treth Enillion Cyfalaf

Tudalennau 'Crynodeb Teth Enillion Cyfalaf' — blwch 51 — G51

Gall y blwch hwn fod yn negyddol

Rhwymedigaeth ychwanegol o ymddiriedolaethau — blwch 52 — G51a

Treth Enillion Cyfalaf ddiwygiedig a godir — G52 (G50 + G51 + G51a)

Copïwch i flwch A272 ar dudalen TCSN 19

Rhyddhad Credyd Treth Dramor — blwch 39 — G53

Ni all cyfanswm y credyd fod yn fwy na — G53a (A295b llai A295c)

Os oes unrhyw flwch ar y dudalen hon yn cynnwys ffigur minws, rhowch sero yn ei le, oni bai y nodir yn wahanol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm y Rhyddhad Credyd Treth Dramor | yr isaf o G53 a G53a | G54 | |
| Treth Enillion Cyfalaf llai Rhyddhad Credyd Treth Dramor | G52 llai G54 | G55 | |
| Treth ar Dreth Enillion Cyfalaf ar gyfer person nad yw'n breswyl a godwyd eisoes | blwch 52.4 | G56 | |
| Treth ar Enillion Trafodion Amser Real a godwyd eisoes | blychau 10 + 12 + 22 + 30 + 38 | G57 | |
| Treth Enillion Cyfalaf sy'n ddyledus | G55 llai (G56 + G57) | G58 | |
| Treth Enillion Cyfalaf a ordalwyd | (G56 + G57) llai G55 | G59 | |
| Cyfanswm y Dreth Incwm, CYG Dosbarth 2 a CYG Dosbarth 4 sy'n ddyledus | (A331 + A332 + A333 + A334 + A335 + A336) llai (A337 + A338) | G60 | |
| Treth Enillion Cyfalaf (y gellir ei had-dalu) | yr isaf o G59 a G60 | G61 | |
| Treth Enillion Cyfalaf (na ellir ei had-dalu) | G59 llai G60 | G62 | |

# Adran 19: Cyfrifwch y dreth sy'n ddyledus ar Bensiwn y Wladwriaeth a dalwyd ar ffurf cyfandaliad

Llenwch yr adran hon os gwnaethoch lenwi blwch 9 ar eich Ffurflen Dreth, tudalen TR 3 (Cyfandaliad Pensiwn y Wladwriaeth)

## Cyfandaliad Pensiwn y Wladwriaeth

Ffurflen Dreth, tudalen TR 3 blwch 9 — **H1**

Os yw blwch A164 ar dudalen TCSN 12 yn fwy na (S5 + A119) ar dudalennau TCSN 8 a TCSN 10, yna nodwch 45% ym mlwch H1, neu 47% os ydych yn gwsmer yn yr Alban.

Os yw blwch A164 ar dudalen TCSN 12 yn fwy na (S2 + S3 + S4 +A119) ar dudalennau TCSN 8 a TCSN 10, yna nodwch 40% ym mlwch H2, neu 42% os ydych yn gwsmer yn yr Alban.

Os yw blwch A164 yn sero, nodwch sero ('0') ym mlwch H2.
Fel arall, nodwch 20% ym mlwch H2. — **H2**

H1 x H2 — **H3**
Copïwch i flwch A276 ar dudalen TCSN 19

# Adran 20: Cyfrifwch y dreth sy'n ddyledus ar daliadau Budd-dal Plant

Llenwch yr adran hon os gwnaethoch lenwi blwch 1 ar y Ffurflen Dreth, tudalen TR 5 (cyfanswm y Budd-dal Plant a gafwyd) ac mae eich incwm (o flwch A81) dros £50,000.

Os oes unrhyw flwch ar y dudalen hon yn cynnwys ffigur minws, rhowch sero yn ei le.

Os nad oeddech yn breswylydd yn y DU ar gyfer 2023 i 2024 J1 = A121 llai blwch 1 o Daflen Cymorth 300 – 'Non-residents and Investment Income' fel arall J1 = A121

Incwm net wedi'i addasu ar gyfer tâl treth Budd-dal Plant — **J1**

Terfyn Incwm Budd-dal Plant — **J2** **£50,000**

J1 llai J2

Incwm net wedi'i addasu dros y terfyn incwm Budd-dal Plant — **J3**

J3 x 1% — **J4**

Tâl Incwm Uchel Budd-dal Plant
Ffurflen Dreth, tudalen TR 5 blwch 1 — **J5**

J5 x 1% — **J6**

J4 x J6 — **J7**

yr isaf o J5 a J7

Tâl treth ar Fudd-dal Plant — **J8**

Copïwch flwch J8 i flwch A277 ar dudalen TCSN 19

# Adran 21: Cyfrifwch Ad-daliadau Benthyciad Myfyriwr a Benthyciad Ôl-raddedig

Llenwch yr adran hon os gwnaethoch lenwi'r blwch hysbysu ynghylch Benthyciad Myfyriwr sy'n amodol ar incwm (Ad-daliadau Benthyciad Myfyriwr ym mlwch 1) ar dudalen TR 5 eich Ffurflen Dreth.

Os oes unrhyw flwch ar y dudalen hon yn cynnwys ffigur minws, rhowch sero yn ei le.

Wrth lenwi blwch K38, y swm ar gyfer Cynllun Benthyciad Myfyriwr 1 yw £22,015, y swm ar gyfer Cynllun Benthyciad Myfyriwr 2 yw £27,295, a'r swm ar gyfer Cynllun Benthyciad Myfyriwr 4 yw £27,660.

Wrth lenwi blwch K42, swm y Cynllun Ôl-raddedig yw £21,000.

Adiwch incwm sy'n agored i'r tâl ad-dalu Benthyciad Myfyriwr at ei gilydd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tudalennau 'Cyflogaeth' | blychau 1 + 3 + 12 + 16 | | K1 |
| Tudalennau 'Cyflogaeth' | blychau 17 + 18 + 19 + 20 | | K2 |
| | | K1 llai K2 | K3 |
| Tudalennau 'Gwybodaeth ychwanegol' tudalen Ai 2 (cynlluniau cyfranddaliadau a chyfandaliadau cyflogaeth) | blychau 1 + 3 + 4 + 5 | | K4 |
| | | K3 + K4 | K5 |
| Tudalennau 'Gwybodaeth ychwanegol' tudalen Ai 2 (cynlluniau cyfranddaliadau a chyfandaliadau cyflogaeth) | blychau 11 + 12 + 13 | | K6 |
| | | K5 llai K6 | K7 |

**Ni ddefnyddir blychau K8 a K9**

Os oes unrhyw flwch ar y dudalen hon yn cynnwys ffigur minws, rhowch sero yn ei le.

## Incwm a enillwyd at ddibenion Benthyciad Myfyriwr a Benthyciad Ôl-raddedig

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tudalennau 'Cyflogaeth' | | K10 | o blwch K7 |
| | | | **Ni ddefnyddir blwch K10a** |
| Tudalennau 'Gweinidogion yr Efengyl' | blychau 17 + 38 llai (6 + 19) | K11 | |
| Tudalennau 'Hunangyflogaeth (byr)' | blwch 31 | K12 | |
| Tudalennau 'Hunangyflogaeth (llawn)' | blwch 76 | K13 | |
| Tudalennau 'Hunangyflogaeth (llawn)' | blwch 73.3 llai blwch 73.4 | K13a | |
| Tudalennau 'Tanysgrifenwyr Lloyd's' | blwch 52 | K14 | |
| Tudalennau 'Partneriaeth (byr)' | blwch 20 | K15 | |
| Tudalennau 'Partneriaeth (llawn)' | blwch 76 | K16 | |
| Tudalennau 'Partneriaeth (llawn)' | blwch 16.3 llai blwch 16.4 | K16a | |
| Tudalennau 'Eiddo yn y DU' | blwch 15 | K17 | |
| Ffurflen Dreth, tudalen TR 3 | blychau 8 + 11 + 16 | K18 | |
| | | | **Ni ddefnyddir blwch K19** |
| Cyfanswm cyflog a enillwyd ar gyfer Benthyciad Myfyriwr a Benthyciad Ôl-raddedig | | K20 | Cyfanswm blychau K10 i K18 |
| | | | **Ni ddefnyddir blwch K20a** |

Os oes unrhyw flwch ar y dudalen hon yn cynnwys ffigur minws, rhowch sero yn ei le.

## Incwm heb ei ennill at ddibenion Benthyciad Myfyriwr a Benthyciad Ôl-raddedig

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tudalennau 'Partneriaeth (byr)' | blwch 28 | K21 | |
| Tudalennau 'Partneriaeth (llawn)' | blychau 35 + 70 + 73 | K22 | |
| Tudalennau 'Eiddo yn y DU' | blwch 40 | K23 | |
| Tudalennau 'Tramor' | A34 + A54 + A69 | K24 | |
| Tudalennau 'Ymddiriedolaethau ac ati' | A40 + A58 + A73 | K25 | |
| **Llog a difidendau** | A62 + A76 | K26 | |
| Ffurflen Dreth, tudalen TR 3 | blwch 15 | K27 | |
| Tudalennau 'Gwybodaeth ychwanegol', tudalen Ai 1 | blychau 4 + 6 + 8 | K28 | |
| **Incwm arall** | o A42 | K29 | |
| **Cyfanswm yr incwm heb ei ennill** | cyfanswm blychau K21 i K29 | K30 | |
| **Trothwy incwm heb ei ennill** | | K31 | £2,000 |

Os yw K30 yn fwy na K31 nodwch y ffigur o flwch K30 ym mlwch K32
Os yw K30 yn llai na neu'n hafal i K31 gadewch K32 yn wag

K32

**Cyfanswm yr incwm at ddibenion Benthyciad Myfyriwr a Benthyciad Ôl-raddedig**

K20 + K32

K33

**Ni ddefnyddir blwch K33a**

## Didyniadau Benthyciad Myfyriwr a Benthyciad Ôl-raddedig

| | | | |
|---|---|---|---|
| Colled y flwyddyn a wrthbwyswyd yn erbyn incwm arall | A95 + A96 + A97 + A98 + A99 + A100 + A101 + A104 | K34 | |
| Rhyddhad ar gyfer cyfraniadau pensiwn, Ffurflen Dreth, tudalen TR4 | blychau 1 + 2 + 3 + 4 | K35 | |
| **Cyfanswm y didyniadau** | K34 + K35 | K36 | |

Os oes unrhyw flwch ar y dudalen hon yn cynnwys ffigur minws, rhowch sero yn ei le.

**Cyfanswm yr incwm y mae ad-daliadau Benthyciad Myfyriwr a Benthyciad Ôl-raddedig yn ddyledus arno**

K33 llai K36

K37 [ ]

**Ni ddefnyddir blwch K37a**

K37 llai swm eich cynllun talu

**Benthyciad Myfyriwr**

K38 [ ]

K38 x 9%

**Ad-daliadau Benthyciad Myfyriwr sy'n ddyledus**

K39 [ ]

Ffurflen Dreth, tudalen TR 5 — blwch 13

K40 [ ]

K39 llai K40

**Ad-daliad Benthyciad Myfyriwr net sy'n ddyledus drwy Hunanasesiad**

K41 [ ]

Copïwch i flwch A333 ar dudalen TCSN 23

K37 llai swm eich cynllun talu

**Benthyciad Ôl-raddedig**

K42 [ ]

K42 x 6%

**Ad-daliad Benthyciad Ôl-raddedig yn ddyledus**

K43 [ ]

Ffurflen Dreth, tudalen TR 5 — blwch 3

K44 [ ]

K43 llai K44

**Ad-daliad Benthyciad Ôl-raddedig net sy'n ddyledus drwy Hunanasesiad**

K45 [ ]

Copïwch i flwch A334 ar dudalen TCSN 23

**Ni ddefnyddir blychau L1 i L199 mwyach**

# Cyfrifwch ryddhad am gostau ariannol

## Incwm o eiddo

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tudalennau 'Eiddo yn y DU' | yr isaf o flychau (44 + 45) a 40 | M1 | |

## Incwm o eiddo partneriaeth

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tudalennau 'Partneriaeth (llawn)' | swm yr isaf o flychau 41 a (41.1 + 41.2) ar gyfer bob tudalen | M2 | |
| Tudalennau 'Partneriaeth (llawn)' | swm yr isaf o flychau 60 a (63.1 + 63.2) ar gyfer bob tudalen | M3 | |

## Incwm o dir ac eiddo dramor

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tudalennau 'Tramor' | yr isaf o flychau (24.1 + 24.2) a 27 | M4 | |

## Incwm o dir ac eiddo dramor sy'n agored fel trosglwyddiad o asedion

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tudalennau 'Tramor' | blychau 13.1 + 13.2 | M5 | |

## Eiddo ac incwm ymddiriedolaeth ac ystâd yn y DU o dir ac eiddo dramor

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tudalennau 'Ymddiriedolaeth ac ati' | blychau 25 + 25.1 | M6 | |
| Incwm net | o A115 | M7 | |
| Incwm o gynilion | o A64 + A80 | M8 | |
| Incwm difidend | o A77 | M9 | |
| Lwfansau | o A128 | M10 | |
| Cyfanswm yr incwm wedi'i addasu | blwch M7 llai blychau (M8 + M9 + M10) | M11 | |
| **Swm caniataol** | blychau M1 + M2 + M3 + M4 + M5 + M6 | M12 | |
| **Swm y gellir ei rhyddhau** | yr isaf o flychau M11 ac M12 | M13 | Copïwch i flwch A260a ar dudalen TCSN 18 |

Arweiniad yn unig yw’r nodiadau hyn sy’n adlewyrchu’r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar eich hawl i apelio.

Grŵp Gwasanaeth i Gwsmeriaid CThEF
Rhagfyr 2023 © Hawlfraint y Goron 2023

Cyllid & Thollau EF